# Cynefin y Cardi

## Prosiect Sirol CISP



### Tŵr y Dderi


Ym Metws Bledrws, slawer dydd
John Jones fu'n sgweier rhadlon,
Rhodd waith i'r di-waith lleol, tlawd,
Creu Tŵr y Dderi'n goron.

Ger Derry Ormond, codwyd tŵr
Ar fryncyn 'fu'n dir comin,
Yng Ngheredigion, colofn dal,
Cofadail anghyffredin.

Wrth ddringo Tŵr y Dderi'n chwim,
Un gris bob dydd o'r flwyddyn,
Y sgweier 'welai ei holl stâd,
O'r copa lawr i'r dyffryn.

A welai ef ar ddiwrnod clir
Y môr yn Aberystwyth?
O frig y tŵr, a welai ef
Ei longau drud a'i dylwyth?


A welai Loegr bell o'r brig?
A welai blasau Llundain
O'i fagnel ben i waered tal,
O'i gampwaith uchel, cywrain?



Cynllunio



Cyd-weithio









Rhifedd a Llythrennedd








Barddoni